

	EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024
	Cystadleuaeth 91 – Parti Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9
	Pennant Melangell, Penri Roberts

Mae sibrwd yn yr awel,
Rhyw furmur yn y dŵr,
Yn galw minnau eto
I'r fangre fach ddi-stŵr.
A llais Melangell yn ei dro
Sy'n denu'r hud i lwybrau'r fro.

Ond ust, daw sŵn o'r goedwig
I dorri naws yr hedd;
Sŵn meirch yn neidio'r cloddiau,
Sŵn cyfarth, sŵn y cledd;
Ai breuddwyd gefais un prynhawn
Wrth wyllo'r hesg yn sgubo'r mawn?

Daw yno hen alawon
I chwarae mig â'r nant,
Gan ddawnsio rhwng y rhedyn
I seiniau pêr y tant.
Mae telynores yn ei bedd
A chlôg Melangell iddi'n hedd.